Ymunwch â Chwm Taf Morgannwg

Join Cwm Taf Morgannwg




# BWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF MORGANNWG

# **Canllaw ar Fuddion Staff**

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
University Health Board

joinctm.wales
CTMJobs

Darganfyddwch y Buddion o weithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM)

Mae BIPCTM yn falch o gynnig ystod eang o fuddion staff sy’n cefnogi eich lles ariannol, datblygiad personol, cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ac iechyd cyffredinol.

P’un a ydych chi’n awyddus i ymuno â ni neu ailddarganfod beth sydd ar gael, archwiliwch sut allwch chi deimlo eich bod chi’n cael eich cefnogi yn y gwaith a thu hwnt.



# Cyflog a Buddion Sy'n Gysylltiedig â Thâl

Mae **Cynllun Pensiwn y GIG** yn un o'r cynlluniau mwyaf hael yn y DU. Mae BIPCTM yn cyfrannu 20.6 % o'ch cyflog i helpu i sicrhau eich incwm ymddeol yn y dyfodol.

Mae BIPCTM bellach yn cynnig **Cynllun Aberthu Cyflog ar Gyngor Pensiynau,** sy'n galluogi gweithwyr i arbed treth ac yswiriant gwladol ar hyd at £500 o gyngor ariannol sy'n gysylltiedig â phensiynau bob blwyddyn. Ar gael i staff a delir drwy gyflogres BIPCTM, mae'r cynllun yn cefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch Cynllun Pensiwn y GIG ac yn annog ceisio cyngor ariannol annibynnol.

Stream* (Wagestream gynt) yw ap lles ariannol i gefnogi gweithwyr y GIG i reoli eu harian gyda mwy o hyder a hyblygrwydd. Wedi'i integreiddio â Chofnod Staff Electronig y GIG (ESR).

Mae Stream yn cynnig amrywiaeth o nodweddion i'ch helpu i gadw rheolaeth ar eich cyllid.

- Olrhain enillion amser real – Gweld beth rydych wedi ei ennill wrth i chi weithio.
- Offer cynilo – Arbed arian yn awtomatig i feithrin gwydnwch ariannol.
- Mynediad hyblyg i enillion – Tynnu cyfran o'ch cyflogau cyn diwrnod cyflog i dalu am dreuliau annisgwyl.

Stream

formerly WAGESTREAM

Mae **Vivup a Perkbox** yn rhoi mynediad i staff at ystod eang o ostyngiadau ac adnoddau lles i gefnogi lles ariannol, corfforol a meddyliol


*Mae'r fenter hon ar gael i bob aelod o staff ar draws y Bwrdd Iechyd, ond DIM OND i'r rhai sydd wedi'u rhestru drwy'r Rhestr Iechyd ac sy'n gweithio goramser neu sifftiau banc y mae ffrydio enillion yn berthnasol.

perkbox | vivup | HEALTH WELLBEING HAPPINESS

# Manteision Ariannol a Gostyngiadau*



Mae ein c**ynllun Cycle2Work** yn eich galluogi i chi arbed hyd at 47% ar feiciau ac offer beicio trwy drefniant aberthu cyflog, gan ei gwneud yn haws ac yn fwy fforddiadwy i deithio'n gynaliadwy.



Gyda'n **Cynllun Arbedion Technoleg,** gallwch gael mynediad at y dechnoleg ddiweddaraf, fel gliniaduron, tabledi ac oriorau clyfar, heb wirio credyd na blaendaliadau, gan ledaenu'r gost drwy'ch cyflog.



Mae ein **Cynllun Prydlesu Ceir** yn cynnig cerbydau newydd sbon, allyriadau isel iawn heb unrhyw gostau ymlaen llaw a thaliadau misol sefydlog, gan wneud gyrru'n syml ac yn fforddiadwy.



Mae gan staff hefyd fynediad i gynlluniau ffôn symudol a thabledi unigryw, ynghyd â mynediad at ystod eang o gardiau disgownt a gwefannau fel **BlueLight Card, Health Service Discounts**, a mentrau eraill, gan roi arbedion i chi ar siopa, bwyta, adloniant a mwy.



**Mae gostyngiadau lleol** ar gael yn MacArthur Glen Designer Outlet, canolfannau garddio ac mewn bwytai fel Nando's a Dominos, y cyfan sydd raid i chi ei wneud yw dangos eich cerdyn adnabod GIG!




**Gostyngiadau mewn campfeydd** Mae'r gostyngiadau sydd ar gael yn y gampfa yn cynnwys BlueLight RhCT i gael 20% oddi ar brisiau talu wrth fynd, ac aelodaeth fisol is trwy Aelodaeth Gorfforaethol Hamdden am Oes. Mae gan Grŵp Hamdden Halo aelodaeth ddisgownt yn y sector cyhoeddus, gyda chanolfannau ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful.



**Adloniant.** Mae gweithio i'r GIG yn dod â chyfres o ostyngiadau unigryw, gan gynnwys arbedion ar docynnau sinema a digwyddiadau byw. P'un a ydych chi'n trefnu noson allan yn y sinema, neu'n mynd i gyngerdd neu berfformiad theatr, gall eich rôl yn y GIG eich helpu i'w fwynhau am lai. Y cyfan sy'n rhaid i chi ei wneud yw cyflwyno'ch cerdyn adnabod GIG neu gofrestru gyda phlatfformau cymwys i gael mynediad at y cynigion hyn.

*Byddwch yn ymwybodol bod pob budd aberthu cyflog yn amodol ar gydymffurfio â rheoliadau'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol

# Ymorth Lles

Mae ein **Gwasanaeth Lles Gweithwyr,** a lansiwyd yn 2020, yn adnodd cyfrinachol sy'n ymroddedig i gefnogi eich lles emosiynol, corfforol ac ariannol.

**Cymorth Emosiynol** - mae gwasanaethau'n cynnwys cwnsela 24/7 trwy Vivup, cymorth iechyd meddwl trwy Canopi, gweithdai lles, therapi realiti rhithiol, cymorth menopos, cymorth cyntaf ar gyfer trawma, a sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar.


**Cymorth ariannol** - gallwch gael mynediad at gyrsiau am ddim fel "Focus on your Finances" gan Affinity, derbyn cyngor ar bensiynau a chael cymorth lles ariannol gan HSBC.

Rydym yn partneru â Moneyworks Cymru, cynllun arbed cyflog arobryn a gefnogir gan y llywodraeth, i roi cyfle i chi arbed a benthyca'n uniongyrchol drwy'ch cyflog.

**Lles corfforol** - rydym yn cynnig arweiniad ac anogaeth i'ch helpu i gadw'n heini ac yn iach.

Mae Iechyd Galwedigaethol yn cynnig rhaglenni imiwneiddio, ffisiotherapi, a c hyngor iechyd cyffredinol i'ch helpu i aros yn iach yn y gwaith.
Os ydych chi'n defnyddio Offer Sgrin Arddangos (DSE), gallwch hawlio hyd at £19 am brawf llygaid a hyd at £60 yn gyfan gwbl i dalu am y prawf ac unrhyw sbectol sydd wedi'u presgripsiynu'n benodol ar gyfer defnydd DSE.

Mae modd gweld ein cynnig lles llawn yma:
**Gwasanaeth Lles Gweithwyr - Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**



## Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith

Rydym yn cynnig rhwng 28 a 34 diwrnod o wyliau blynyddol (yn dibynnu ar eich rôl a hyd eich gwasanaeth), ynghyd â gwyliau banc. Gallwch hefyd **brynu hyd at 10 diwrnod ychwanegol** bob blwyddyn.

Mae ein **polisïau sy'n gyfeillgar i deuluoedd** yn cynnwys opsiynau gweithio hyblyg, tâl mamolaeth, tadolaeth, a mabwysiadu gwell, yn ogystal ag absenoldeb gofalwyr â thâl, absenoldeb brys, a thâl salwch gwell. Rydym hefyd yn cynnig absenoldeb arbennig â thâl ar gyfer amgylchiadau annisgwyl.

**Mae Cyfleusterau gofal plant ar y safle** ar gael ar draws rhai o'n hysbytai.



# Dysgu a Datblygu

Fel bwrdd iechyd prifysgol, rydym wedi ymrwymo i'ch cefnogi i ymgysylltu yn eich datblygiad personol a phroffesiynol.

Mae ein **Hacademi Brentisiaethau** yn darparu mynediad at gymwysterau sy'n cael eu cyflwyno gan rwydwaith o bartneriaid addysgol a darparwyr hyfforddi, gan sicrhau cyllid yn aml i chi ennill cymwysterau heb unrhyw gost bersonol.

Mae ein G**wasanaeth y Gymraeg** mewnol yn darparu mynediad at **gyrsiau Cymraeg am ddim.**

Rydym yn cynnig ystod eang o **gyfleoedd dysgu byr a Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth a Rheoli mewnol,** yn ogystal â hyfforddiant clinigol ac anghlinigol trwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Mae gan BIPCTM gynnig addysg glinigol helaeth hefyd, gan gael mynediad at gyllid a llwybrau i staff ddatblygu'n barhaus fel rhan o Academi Ddysgu BIPCTM.
Rydym hefyd yn aelodau balch o S**efydliad Florence Nightingale**, sy'n cefnogi datblygu arweinyddiaeth yn y proffesiwn Nyrsio.

Mae gan staff a myfyrwyr BIPCTM fynediad at **fannau llyfrgell** croesawgar ar draws prif safleoedd ysbytai, sy'n cynnig podiau astudio, ystafelloedd cyfrifiaduron, casgliadau lles, cefnogaeth ymchwil arbenigol, sesiynau hyfforddi ac ystod eang o adnoddau papur a digidol i gefnogi dysgu, datblygiad a lles.

Y Gymraeg yn CTM
Welsh at CTM
Cymraeg

ACADEMI
Brentisiaethau
Apprenticeship
ACADEMY
Cwm Taf Morgannwg

## Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth

Rydym yn dathlu arloesedd a rhagoriaeth trwy fentrau fel y Simply Do Idea of the Month, yr arddangosfa  iCTM Flynyddol, Gwobrau Seren Misol a Gwobrau Staff CTM Blynyddol, lle mae cyfraniadau rhagorol yn cael eu cydnabod a'u gwobrwyo



## Cymorth Adleoli

Os ydych chi'n ystyried ymuno â ni ac y byddai angen i chi symud, rydym yn cynnig pecyn adleoli i gefnogi'r proses symud lle bo angen a lle mae'n gyfiawn.

Anfonwch e-bost at **CTM.Resourcing@ Wales. nhs.uk** am gopi llawn o'n polisi adleoli.

